# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd



Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd

Conwy - a progressive County creating opportunity

# Cynnwys


1. **Rhagarweiniad** ........ 3

2. **Conwy Ydym Ni** ........ 4

3. **Ein hamcanion ac egwyddorion ar gyfer cyfranogiad** ........ 5

4. **Beth yw Cyfranogi?** ........ 6

5. **Pam fod cyfranogi'n bwysig?** ........ 7

6. **Pwy fyddwn yn eu cynnwys?** ........ 7

7. **Sut y gallwch gymryd rhan** ........ 8

8. **Beth ydym ni'n ei wneud fel Cyngor?** ........ 9

9. **Sut ydym ni'n gwneud penderfyniadau?** ........ 10

10. **Sut y gallwch gyfranogi o benderfyniadau** ........ 10

11. **Bod yn Gynghorydd** ........ 12

12. **Parchu amrywiaeth a bod yn hygyrch** ........ 13

13. **Adrodd yn ôl** ........ 14

14. **Adolygu a Gwella** ........ 14

15. **Sut i gysylltu â ni** ........ 15

16. **Sut fyddwn yn cyflawni ein hamcanion?** ........ 16

17. **Atodiad 1 – Mathau o Gymunedau** ........ 17


**This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.**

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar ffurf print bras, sain a Braille.**

**Holwch y Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad am hyn.**

# Rhagarweiniad

Mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn egluro sut mae Cyngor Conwy'n dymuno sicrhau y darperir gwybodaeth i'r bobl sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy, yn gweithio ac yn ymweld yma, a bod y Cyngor yn eu cynnwys ac yn gwrando arnynt wrth ddarparu ei wasanaethau, i wneud bywyd yn well yn ein cymunedau.

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i annog pobl i gyfranogi o'r hyn y mae'n ei wneud, rhoi cyfleoedd cyson i bobl leisio'u barn a chyfrannu at y modd y gwneir penderfyniadau a'r ffordd y darperir gwasanaethau.

Dymunwn i'n penderfyniadau gyflawni gwell canlyniadau i bobl yn ein cymunedau, yn enwedig felly'r rhai hynny sy'n byw dan amgylchiadau llai ffafriol yn gymdeithasol ac economaidd. Hoffem glywed barn y bobl y mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt a deall eu safbwyntiau a'u hanghenion, yn enwedig pobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Rydym yn ymrwymo i sicrhau bod ein gwaith ymgysylltu'n gweithio'r ddwy ffordd, gan gynnwys gwrando ar leisiau ein dinasyddion, cymunedau, staff, aelodau etholedig a phartneriaid wrth wneud penderfyniadau a llunio gwasanaethau a pholisïau sy'n effeithio arnynt. Dymunwn roi dinasyddion wrth galon ein penderfyniadau a sicrhau fod pob rhan o'r gymuned yn cael cyfle i gymryd rhan ar lefel ac yn y ffordd orau iddynt hwy.

Mae'r strategaeth hon yn egluro sut y gall y cyhoedd gymryd rhan mewn penderfyniadau, ynghyd â'n hamcanion a'n hegwyddorion ar gyfer darparu ymagwedd effeithiol ac wedi ei chydlynu tuag at gyfranogiad y cyhoedd, gan gynnwys sut y byddwn yn monitro a chyflawni'r rhain.

Edrychwn ymlaen at weithio â chi wrth gyflawni'r strategaeth hon, gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau y mae pobl Conwy'n eu gwerthfawrogi a'u hangen.



# Conwy Ydym Ni

Mae tua 114,741 o bobl yn byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy (Cyfrifiad 2021). Ar y llain gul ar hyd yr arfordir y mae tua 90% o'r boblogaeth, a Llandudno a Bae Colwyn yw'r ddwy ardal drefol fwyaf. Ceir aneddiadau arwyddocaol eraill ar hyd yr arfordir yn Abergele, Conwy, Bae Cinmel, Towyn, Cyffordd Llandudno, Penmaenmawr, Llanfairfechan a Bae Penrhyn. Mae poblogaeth Conwy wledig yn wasgaredig iawn.  Y prif aneddiadau yw tref farchnad Llanrwst ac yma ac acw mae pentrefi Betws-y-coed, Betws-yn-Rhos, Eglwysbach, Llanfairtalhaearn, Llansannan, Llangernyw, Pentrefoelas a Cherrigydrudion. Gyda dim ond 105 o bobl fesul pob cilometr sgwâr, dim ond chwe awdurdod lleol arall yng Nghymru sydd â phoblogaeth llai dwys na Chonwy. Er mai sir wledig yw Conwy'n bennaf, mae'r trefi'n ganolfannau pwysig i'r bobl syn byw o'u hamgylch.

Pobl wyn yw 96.9% o'n poblogaeth, 55.5% wedi'u geni yng Nghymru a 25.9% yn gallu siarad Cymraeg. Mae pobl o fwy na phedwar ugain o genhedloedd heblaw am Brydain yn byw yn y Fwrdeistref Sirol. Mae 20% o bobl yn anabl (dan y Ddeddf Cydraddoldeb) a 10% yn darparu gofal yn ddi-dâl. Plant a phobl ifanc dan 16 yw 16% o'r boblogaeth. Mae 27% o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn, y gyfradd fwyaf ond un yng Nghymru.



# Ein hamcanion ac egwyddorion ar gyfer cyfranogiad

Mae'r amcanion isod yn nodi sut byddwn yn sicrhau bod ein strategaeth yn darparu dull effeithiol a chydlynol o ennyn cyfranogiad y cyhoedd er budd yr holl ddinasyddion a chymunedau lleol – er mwyn meithrin cymunedau cryf, gweithgar a chynhwysol.

**Ein hamcanion yw:**

1. Cryfhau cyfleoedd i bobl a grwpiau lleol ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau, datblygu a dal i gynnig y cyfleoedd hynny fel rhan o sgwrs barhaus.

2. Cefnogi cyfleoedd i gymunedau ddylanwadu ar ddatblygiad a darpariaeth gwasanaethau graenus a pholisïau sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

3. Cydlynu gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn well er mwyn sicrhau cysondeb, ansawdd a chyfranogiad partneriaid i osgoi dyblygu gwaith.

4. Annog pob rhan o'r gymuned i gyfranogi, yn enwedig pobl a grwpiau sy'n aml iawn yn cael eu gadael allan wrth ymgysylltu â'r gymuned.

5. Darparu gwell gwybodaeth i gyfranogwyr ynglŷn â chanlyniadau gwaith ymgynghori ac ymgysylltu.

6. Hybu amrywiaeth, hyblygrwydd a dewisiadau wrth ymgynghori ac ymgysylltu.

7. Datblygu Cynllun Gwaith fel y gall pobl a chymunedau lleol ddewis sut a phryd y dymunant gymryd rhan.

8. Gwrando a dysgu o'n profiadau ein hunain a phrofiadau eraill, rhannu sgiliau ar gyfer ennyn cyfranogiad y gymuned a dealltwriaeth o roi dinasyddion wrth galon ein penderfyniadau.

Wrth gyflawni ein hamcanion ar gyfer ennyn cyfranogiad, fe wnawn ein gorau glas i'w gwneud mor hwylus â phosib i bobl Conwy leisio'u barn.

**Ein hegwyddorion yw bod yn:**

1. **Hygyrch a chynhwysol -** mae pawb yn ein cymuned yn cael dewis a chyfle i gymryd rhan.
2. **Clir a phroffesiynol -** cyfleu hyder, dibynadwyedd a hygrededd.
3. **Sicr wrth dargedu -** mae'r bobl iawn yn cael y wybodaeth iawn er mwyn cymryd rhan.
4. **Agored, gonest a thryloyw -** bod â phwrpas clir a bod yn onest am unrhyw gyfyngiadau.
5. **Amserol a pherthnasol -**rhoi digon o amser a rhybudd i bobl fedru cymryd rhan.
6. **Cynaliadwy -** cynnal perthnasoedd sy'n fuddiol i bawb.
7. **Dwyffordd -**byddwn yn cynnal trafodaeth ac yn gwrando, nid siarad yn unig.

# Beth yw Cyfranogi?

Gall cyfranogi olygu gwahanol bethau i wahanol bobl a gall gynnwys amrywiaeth o ddulliau gweithredu gan ddibynnu ar yr hyn y mae pobl yn dymuno ei gyflawni. Ceir braslun isod o'r amryw ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gynnwys pobl a sicrhau y clywir llais ein pobl a'n cymunedau.

**Lefelau Cyfranogi**

**Gwybodaeth**



Byddwn yn rhoi gwybodaeth i bobl a rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau lleol, gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau a allai effeithio arnynt neu fod o ddiddordeb iddynt.

Fe wnawn hynny mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys ar ein gwefan, tudalennau cyfryngau cymdeithasol, newyddlenni, taflenni, grwpiau a fforymau.

**Ymgynghori**

Mae hyn yn beth mwy ffurfiol a cheir dechrau a diwedd pendant iddo. Byddwn yn holi barn y cyhoedd pan mae angen penderfynu ynghylch materion o bwys a allai effeithio arnynt (fel newid gwasanaethau a chyflwyno cynlluniau neu bolisïau newydd). Caiff pobl gyfle drwy hyn i ddylanwadu ar benderfyniadau a newid y canlyniadau.



**Ymgysylltu**

Byddwn yn darparu cyfleoedd cyson i bobl a chymunedau gael sgwrs â ni i rannu eu safbwyntiau a'u syniadau. Galwn hyn yn Sgwrs y Sir. Dymunwn ymgysylltu â budd-ddeiliaid a bod yn dryloyw gydol y drefn benderfynu. Dymunwn ddysgu am brofiadau a bywydau pobl.



**Datblygu Gyda'n Gilydd**




Bydd gwasanaethau'r Cyngor a chymunedau'n cydweithio ac yn cyfrannu'n gyfartal at lunio a darparu gwasanaethau, prosiectau a digwyddiadau cymunedol.

Mae'n bwysig cydnabod fod yno amryw fathau o gymunedau a bod modd eu diffinio ar sail y gwahanol ddibenion sy'n dod â phobl ynghyd (gweler Atodiad 1)

**Diddordeb** - cymunedau o bobl sy'n rhannu diddordeb neu frwdfrydedd am yr un peth.
**Gweithredu** - cymunedau o bobl sy'n ymdrechu i newid pethau.
**Lle** - cymunedau o bobl sy'n dod ynghyd ar sail ffiniau daearyddol.
**Ymarfer** - cymunedau o bobl yn yr un proffesiwn neu sy'n cymryd rhan yn yr un gweithgareddau.
**Amgylchiadau** - cymunedau o bobl sy'n dod ynghyd oherwydd digwyddiadau/sefyllfaoedd allanol.

## Pam fod cyfranogi'n bwysig?

Gall cyfranogi a rhannu eich profiadau mewn bywyd helpu i wella eich amgylchiadau personol a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned ehangach.

Oherwydd yr hinsawdd sydd ohoni'n ariannol ac amgylcheddol, bydd yr hyn a ddarparwn a'r ffordd y gwnawn hynny'n newid yn y blynyddoedd i ddod. Dyna pam ei bod yn hollbwysig eich cynnwys chi a'ch cymuned er mwyn inni wybod yn iawn beth yw'r blaenoriaethau'n lleol a datblygu datrysiadau sy'n gyson â'r hyn sydd ei angen a'i eisiau ar gymunedau.

## Pwy fyddwn yn eu cynnwys?

Byddwn yn ennyn cyfranogiad amrywiaeth helaeth o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys –



**Preswylwyr**



**Defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd**



**Grwpiau Cymunedol**



**Busnesau**



**Ymwelwyr**

**Cynghorau Tref a Chymuned**



**Aelodau Etholedig**



**Comisiynwyr Cymru**

**Partneriaid yn y Trydydd Sector**



**Partneriaid yn y Sector Cyhoeddus**

**Pobl â Nodweddion Gwarchodedig**

**Asiantaethau'r Llywodraeth**

**Budd-ddeiliaid Eraill** (er enghraifft, Undebau Llafur, Cyrff Proffesiynol )

# Sut y gallwch gymryd rhan

Gallwch gymryd rhan a chyfranogi mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys –

**Gwefan Cyngor Conwy** - Mae ein gwefan yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn y Cyngor a sut y gallwch gymryd rhan.

**Dweud Eich Dweud** - Mae gennym we-dudalen ichi leisio'ch barn ynglŷn â materion penodol, gan gynnwys ymgyngoriadau ffurfiol a chyngor ynglŷn â chyflwyno deiseb.

**Sgwrs y Sir** - Dyma un ffordd ichi rannu syniadau i wella gwasanaethau a'ch ardal leol.

**Cyfarfodydd Pwyllgorau** - Mae holl gyfarfodydd ein pwyllgorau (gan gynnwys Craffu a Chynllunio) yn agored i'r cyhoedd (heblaw am eitemau eithriedig). Gallwch wylio cyfarfodydd ar-lein hefyd.

**Cyfryngau Cymdeithasol** - Rydym bob amser yn awyddus i ddefnyddio'r dulliau diweddaraf o rannu gwybodaeth â phobl am gyfleoedd i gymryd rhan – fe welwch ni ar **Facebook**.

**Grwpiau cymunedol -** Mae peth wmbreth o grwpiau cymunedol yng Nghonwy y gall pobl â diddordeb gymryd rhan ynddynt. Dewch o hyd i grwpiau lleol drwy fynd i **Dewis** a gwefan **Tîm Lles Cymunedol Conwy**.

**Cyswllt beunyddiol â Chynghorwyr a staff** - Er enghraifft, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr casglu gwastraff, athrawon, staff swyddfeydd tocynnau ac yn y blaen.

**Y Cyngor Ieuenctid** - Cyfle i blant a phobl ifanc yn yr ardal i leisio'u barn a chael dewis ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i **dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid** neu i **wefan y Gwasanaeth Ieuenctid**.

**Sylwadau Cwsmeriaid** - Rhowch wybod inni os ydyn ni'n gwneud rhywbeth yn arbennig o dda neu os hoffech inni wella rhywbeth.

**Cynghorau Tref a Chymuned** - Mae'r cynghorau lleol hyn yn gwasanaethu eu cymunedau ac yn gweithio i wella ansawdd bywyd yn yr ardal. Cymerwch ran a dysgwch fwy am eich cyngor lleol.

**Bod yn Gynghorydd** - Byddwch yn rhan o'r tîm sy'n gyfrifol am les a dyfodol Bwrdeistref Sirol Conwy a'r holl bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld yma.

**Mudiadau Gwirfoddol a Sefydliadau Trydydd Sector** - Mae'r rhain yn ffordd dda i bobl gymryd rhan yn eu cymunedau lleol a mynegi barn drwy ddull llai ffurfiol.

**Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** - Gweithiwn mewn partneriaeth agos â gwasanaethau cyhoeddus eraill er mwyn gwella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.



# Beth ydym ni'n ei wneud fel Cyngor?

Gwyddom nad yw pawb yn ymwybodol o'r amrywiaeth helaeth o wasanaethau cyhoeddus rydym yn gyfrifol amdanynt. Nod y gwasanaethau hynny yw cefnogi dinasyddion y Fwrdeistref Sirol ac ymwelwyr yn eu bywydau beunyddiol. Dymunwn annog pobl i ddysgu mwy am y gwasanaethau hyn drwy siarad â'u Cynghorwyr lleol, ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol, dod o hyd i wybodaeth ar ein gwefan a darllen ein [Hadroddiad Blynyddol](www.conwy.gov.uk/Perfformiad) (www.conwy.gov.uk/Perfformiad). Hefyd mae yna wybodaeth ynglŷn â sut yr ydym yn rheoli arian, yn cynnwys ein Cyllideb Flynyddol, Adroddiad ar y Gyllideb a'r Datganiad Cyfrifon yma: [Gwybodaeth Cyllid](www.conwy.gov.uk/GwybodaethCyllid) (www.conwy.gov.uk/GwybodaethCyllid).



**Addysg ac Ysgolion -** cefnogi addysg ac ysgolion, cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a gwasanaethau ieuenctid a theuluoedd



**Gofal Cymdeithasol -** Lles Cymunedol, Anabledd, Diogelu, Cyfiawnder Ieuenctid, Cymorth ac Ymyriadau i Deuluoedd, Pobl Hŷn a Gwaith Cymdeithasol mewn Ysbytai, Safonau Ansawdd a Chomisiynu, cynorthwyo Plant sy'n Derbyn Gofal, cefnogi pobl ddiamddiffyn, Diogelwch Cymunedol



**Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau -**Ffyrdd a mannau agored, Cludiant Cyhoeddus, Ailgylchu a Chasglu Gwastraff, Perygl Llifogydd ac isadeiledd, Gwarchod y Cyhoedd



**Tai Strategol -** Y Strategaeth Dai, Datrysiadau Tai, Gwelliannau tai, Rheoli Datblygu ac Adeiladu, Tai, Cynllunio Strategol, ac Ystadau



**Yr Economi a Diwylliant -** Busnes a Thwristiaeth, Diwylliant a gwybodaeth, cyfleusterau Hamdden, rheoli lleoliadau, digwyddiadau ac ystadau.



**Cymorth Corfforaethol -** Archwilio a Chaffael, Cyllid Corfforaethol, Pobl a Pherfformiad, Marchnata a chyfathrebu, Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol, y Gyfraith a Llywodraethu

## Sut ydym ni'n gwneud penderfyniadau?

Gwyddom nad yw pawb yn deall sut mae'r Cyngor yn gweithio.

Mae'r ein Cyfansoddiad yn rheoli'r modd y mae'r Cyngor, Cynghorwyr a swyddogion y Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Rydym wedi llunio **Canllaw i'r Cyfansoddiad** i helpu pobl i ddeall sut mae'r Cyngor yn gweithio i ddarparu gwasanaethau lleol. Mae'n rhoi braslun o Gyfansoddiad y Cyngor ac yn egluro rhannau allweddol ohono mewn iaith glir a syml.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 55 o Gynghorwyr (a elwir weithiau'n Aelodau Etholedig) a gaiff eu hethol bob pum mlynedd i gynrychioli pobl sy'n byw mewn gwahanol rannau o ardal y Cyngor ('wardiau', fel y'u gelwir). Mae Cynghorwyr yn gyfrifol am bawb sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i bobl sy'n byw yn eu ward.




Mae'r holl Gynghorwyr yn cwrdd â'i gilydd yn gyson ar ffurf y Cyngor. Y Cyngor sy'n gyfrifol am bennu'r gyllideb, blaenoriaethau polisi a'r fframwaith polisi cyffredinol.

Y Cyngor sy'n penodi Arweinydd y Cyngor; yna mae'r Arweinydd yn penodi Aelodau eraill y Cabinet, ac yn neilltuo cyfrifoldebau (portffolios) i aelodau Cabinet. Mae'r Cabinet yn cwrdd yn rheolaidd i wneud penderfyniadau ar y cyd ar yr agweddau hynny o waith y Cyngor y mae'r Cabinet yn gyfrifol amdano.

Cyflawnir rhai o swyddogaethau'r Cyngor gan bwyllgorau. Mae pwyllgorau'n grwpiau bach o Gynghorwyr sy'n cwrdd â'i gilydd i gyflawni rhai o swyddogaethau rheoleiddio a chraffu'r Cyngor.

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n rhoi cyngor ar bolisïau ac yn dwyn y Cabinet i gyfrif ar faterion penodol. Gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd adolygu meysydd gweithgarwch y Cyngor neu faterion o bryder ehangach yn lleol.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Trwyddedu yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio'r Cyngor.

Dymunwn fod yn dryloyw ynglŷn â'r modd y gwneir ein penderfyniadau democrataidd a swyddogaeth budd-ddeiliaid yn y drefn honno.

Dymunwn annog budd-ddeiliaid i gyfranogi o'r drefn benderfynu ddemocrataidd a gwneud hynny'n haws iddynt.

## Sut y gallwch gyfranogi o benderfyniadau

Dymunwn gynorthwyo pobl i fynegi eu barn ynglŷn â phenderfyniadau cyn eu gwneud ac wedi hynny. Dyma sut y gallwch gymryd rhan -

## Cysylltu â'ch Cynghorydd lleol



Ei swyddogaeth yw eich cynrychioli chi, cyfleu eich pryderon ac eirioli ar eich rhan. Gallwch anfon e-bost neu lythyr at eich Cynghorydd neu roi galwad ffôn iddynt. Fe welwch chi **fanylion cyswllt eich Cynghorydd** ar ein gwefan.

## Mynd i Gyfarfodydd Cyhoeddus

Gallwch fynd i gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau eraill. Fel arall gallwch wylio'r ffrwd fyw heb ddod i'r cyfarfod, neu wylio recordiad ar ein gwefan. Cyn y cyfarfod gallwch weld y rhaglen waith, rhaglen y cyfarfod ac unrhyw adroddiadau i'w trafod. Mae rhai pwyllgorau'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd neu gyflwyno sylwadau o flaen llaw i'r pwyllgor eu hystyried. Ar ôl pob cyfarfod, gallwch ddarllen y cofnodion a chael y wybodaeth ddiweddaraf. Rydym hefyd yn rhestru'r holl benderfyniadau a wneir yn y cyfarfodydd hyn. Ewch i'n **gwe-dudalennau am bwyllgorau** i gael gwybod mwy.



## Cymryd rhan mewn Craffu



Mae Craffu'n helpu'r Cyngor i elwa ar wybodaeth y gymuned wrth arfer ei brosesau gwella. Mae'r Cynghorwyr yn gweithio â phobl leol, mudiadau cymunedol, asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor a'r cyhoedd er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol ac ymatebol. Dymunwn ichi fedru lleisio'ch barn ynglŷn â'r ffordd y gwneir penderfyniadau a'r ffordd y darperir gwasanaethau. Cynhelir yr holl gyfarfodydd hyn yn gyhoeddus ac mae croeso i bawb ddod iddynt a chofrestru o flaen llaw i siarad mewn cyfarfod. Drwy leisio'ch barn inni, gallwch helpu i wella'r gwasanaethau rydych yn eu derbyn. Ewch i'n **gwe-dudalen ynglŷn â Chraffu** i gael gwybod mwy.

## Cymryd rhan mewn ymgyngoriadau cyhoeddus



Rydym yn aml yn ymgynghori ynghylch cynigion a allai effeithio arnoch chi, eich cymuned a'r gwasanaethau a ddarparwn. Mae hynny'n rhoi cyfle ichi leisio'ch barn a gwneud sylwadau ynglŷn â chynlluniau a chynigion cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau ffurfiol yn eu cylch. Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, fe luniwn adroddiad o'r ymatebion a gafwyd a'r ystyriaeth a roddwyd iddynt wrth lunio'r drafft terfynol o'r strategaeth neu'r cynllun dan sylw. Ewch i'n **gwe-dudalen ynglŷn ag ymgynghori** i weld yr ymgyngoriadau diweddaraf.

## Cymryd rhan mewn deisebau



Gall creu deiseb, neu gymryd rhan mewn un, fod yn un ffordd o gyfranogi o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae'n galluogi pobl i godi materion sy'n peri pryder a rhoi cyfle i Gynghorwyr ystyried yr angen am newid. Holwch eich Cynghorydd lleol yn gyntaf. Mae'n hawdd **creu deiseb ar-lein**, ewch i'n gwefan i gael gwybod mwy.

# Bod yn Gynghorydd

Dymunwn annog gwell dealltwriaeth o swyddogaethau Cynghorydd, nid yn unig er mwyn gwella perthnasoedd ac ymddiriedaeth rhwng penderfynwyr a'r cyhoedd ond hefyd i annog mwy o bobl i ymgeisio mewn etholiadau lleol, boed hynny fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol neu Gynghorydd Tref neu Gymuned.  Mae annog mwy o bobl i gyfranogi o'r drefn benderfynu'n sylfaenol i wella'r ddealltwriaeth.

Gall bod yn Gynghorydd lleol fod yn brofiad sy'n rhoi boddhad mawr. Mae'n rhoi cyfle i helpu'r gymuned leol, newid pethau a bod yn rhan o'r tîm sy'n gyfrifol am les a dyfodol Bwrdeistref Sirol Conwy a'r holl bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld yma.

Mae ar bobl Conwy angen cynghorwyr lleol ag amrywiaeth eang o ddoniau a diddordebau sy'n adlewyrchu poblogaeth amrywiol y sir. Mae'n bwysig bod cynghorwyr yn debyg i'r bobl sy'n eu hethol - mae arnom angen mwy o amrywiaeth ymysg ein cynghorwyr - mae arnom angen mwy o ferched, mwy o bobl ifanc, mwy o bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, mwy o bobl anabl a mwy o bobl LHDTC+ i ymgeisio mewn etholiadau er mwyn iddynt gynrychioli gwahanol safbwyntiau yn y gymuned a gwneud penderfyniadau er budd pawb.

Rydym wedi newid y ffordd rydym yn gweithio fel bod modd i Gynghorwyr gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell, sy'n fuddiol os oes ganddynt flaenoriaethau eraill, fel cyfrifoldebau gofalu a/neu waith.

Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant i helpu Cynghorwyr i ddatblygu yn y swydd.

**Beth mae Cynghorwyr yn ei wneud?**




Etholir Cynghorwyr gan bobl sy'n byw mewn ward benodol i'w cynrychioli ar y Cyngor.  Maent hefyd yn atebol i'r gymuned ehangach ac mae'n rhaid iddynt weithredu er budd gorau pawb sy'n byw yn ardal y Cyngor.  Maent yn cyflawni swyddogaeth bwysig wrth ddatblygu polisïau - adnabod anghenion y gymuned, pennu amcanion er mwyn bodloni'r anghenion hynny, penderfynu ynghylch y galw amrywiol ar wasanaethau a dyrannu adnoddau.

Ceir rhai Cynghorwyr sydd hefyd yn 'Gefnogwyr' yn eirioli ar ran carfannau na chawsant eu cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol neu hyrwyddo rhyw faes penodol o waith.  Mae hynny'n aml yn rhan o swyddogaeth Aelod Cabinet os oes cysylltiadau amlwg â'r portffolio, fel cydraddoldeb a chynaladwyedd, er enghraifft.  Mewn meysydd eraill, mae Cynghorwyr yn gwirfoddoli i fod yn Gefnogwyr, fel ein Cefnogwr Gofalwyr, Cefnogwr Iechyd Meddwl, Cefnogwr Anabledd, Cefnogwr o Blaid Pobl Hŷn, Cefnogwr y Gymraeg a Chefnogwr y Lluoedd Arfog.  Mae'r Cefnogwyr yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r pwnc neu'r garfan dan sylw pan mae'r Cyngor yn datblygu polisïau a gwneud penderfyniadau.

Dymunwn hybu proffil y Cefnogwyr hyn a'u galluogi i fod yn fwy effeithiol yn y Cyngor a'r gymuned, i weithio'n agos â budd-ddeiliaid perthnasol a hyrwyddo eu buddiannau'n effeithiol.

Gall swydd Cynghorydd fod yn un brysur iawn, ond mae Cynghorwyr yn cael cyflog am eu hymrwymiad a'u cyfraniad.  Ceir mwy o wybodaeth am swyddogaethau Cynghorydd a sut i ymgeisio mewn etholiad ar wefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **Byddwch yn Gynghorydd, Sicrhewch mai chi yw'r newid**.

# Parchu amrywiaeth a bod yn hygyrch

Mae angen i'n gwaith ymgysylltu adlewyrchu'r amrywiaeth yn ein cymunedau a gwahanol brofiadau pobl mewn bywyd.

Fe geisiwn glywed lleisiau o bob cefndir a sicrhau fod gan bawb gyfle cyfartal i leisio'u barn a chael eu clywed.  Byddwn yn ystyriol o wahanol ddiwylliannau, ieithoedd, cefndiroedd ethnig, crefyddau, hoffterau rhagenwau yn ôl rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedrannau, statws economaidd-gymdeithasol, cefndiroedd (pobl mewn tlodi, er enghraifft), dulliau cyfathrebu ac anghenion hygyrchedd.  Byddwn yn ystyried gofynion pobl ag anghenion ychwanegol ac yn ceisio lleihau rhwystrau sy'n atal pobl â nam ar eu synhwyrau (eu clyw a'u golwg) ac amhariadau dysgu rhag cymryd rhan.  Lle bo'n briodol, byddwn yn ystyried defnyddio print bras, testun hawdd ei ddarllen, sain, fideo, Braille a gwasanaethau cyfieithu.

Ewch i weld **Cynllun Conwy Gynhwysol** i gael gwybod mwy am sut rydym yn bwriadu addasu'r ffordd rydym yn gweithio ymhob rhan o'r gymuned fel bod yno amrywiaeth o ddewisiadau hygyrch a phwrpasol i bobl leol gyfathrebu â'n gwasanaethau, cydweithio ac ymgysylltu â hwy. Drwy wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda chymunedau, ein nod yw sicrhau y caiff llais dinasyddion Conwy ei glywed, a'u bod yn cymryd rhan weithredol yn yr hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau.

**Cyngor Ieuenctid Conwy**




Mae Cyngor Ieuenctid Conwy'n rhoi cyfle i bobl ifanc rhwng 13 a 25 oed sy'n byw neu'n astudio ym Mwrdeistref Sirol Conwy leisio'u barn ac ymgyrchu ar y cyd ynglŷn â phethau sy'n bwysig iddynt hwy a phobl ifanc eraill. Dymunwn i bobl ifanc fod yn rhan o drawsnewid eu bywydau a bod yn rhan o brosesau penderfynu.

Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu pobl ifanc i feithrin cysylltiadau â chynghorwyr lleol a chodi eu lleisiau. Ceisir cyngor Aelodau'r Cyngor Ieuenctid ynglŷn â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc er mwyn clywed syniadau, gwybodaeth a'u barn a fydd cynllun, polisi neu brosiect o fudd i'w cyfoedion neu beidio.

Rydym yn sicrhau fod Cyngor Ieuenctid Conwy'n gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfranogiad ledled y sir drwy weithio ag ysgolion a cholegau i ganfod cynrychiolwyr o blith eu myfyrwyr yn ogystal â chynnwys grwpiau a sefydliadau ieuenctid yn gyffredinol. Cynhaliwn gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein er mwyn annog mwy o gyfranogwyr a goresgyn problemau teithio, gan fod y bobl ifanc yn dod o bob cwr o'r sir.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i **dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid** neu i **wefan y Gwasanaeth Ieuenctid**.

# Adrodd yn ôl

Mae'n hollbwysig rhoi gwybod i bobl beth rydym wedi'i wneud o ganlyniad i'w sylwadau a'u cyfranogiad, er mwyn sicrhau bod ein gwaith ymgysylltu'n dal yn ystyrlon ac effeithiol. Ar ôl pob gweithgaredd ymgysylltu, fe rown wybod i'r bobl a gyfranogodd beth wnaethom o ganlyniad i'w sylwadau. Er nad oes modd inni adrodd yn ôl ar bob un o'r sylwadau, maent oll yn cael eu hystyried yn ystod ein trafodaethau democrataidd.

Mae meithrin cyswllt â'ch Cynghorydd lleol yn un ffordd o gael ymateb i'ch sylwadau. Gellir gwneud hynny mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys ymweld â hwy'n bersonol, anfon llythyr neu e-bost neu wneud sylw ar gyfryngau cymdeithasol.

Pan ddaw pob ymgynghoriad cyhoeddus i ben, fe gyhoeddwn y canfyddiadau ar ein gwefan. Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir yn ystod y drefn ymgynghori ac yn llunio crynodeb ohonynt.

Gallwch hefyd weld Cynlluniau Gwaith Pwyllgorau'r Cyngor ar ein gwefan i gael gwybod pa eitemau a gaiff eu trafod a phryd. Mae hynny'n creu cyfleoedd i gymryd rhan yn gynharach yn ystod y broses benderfynu.

Wrth gymryd rhan yn y drefn Trosolwg a Chraffu, efallai na fydd Aelodau'r Pwyllgor yn dod i'r un casgliadau â chi, ond byddant yn cydnabod eich sylwadau a'u hystyried. Cyflwynir sylwadau a wnaed yn ysgrifenedig neu ar-lein i'r Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor perthnasol.

Lluniwyd canllawiau a rhaglen hyfforddi staff fel bod ein gweithwyr yn gwybod sut i gynnwys ein cymunedau a meithrin cyswllt â hwy.

# Adolygu a Gwella

**Arfarnu, Adrodd yn Ôl, Dod i Gasgliadau a Gwneud Argymhellion**

Adroddwn yn ôl yn brydlon ynghylch canlyniadau ein gwaith ymgysylltu, a hynny ar ffurf hygyrch. Mae hynny'n cynnwys cyhoeddi adroddiadau ar ein gwefan ac adrodd yn ôl yn uniongyrchol i grwpiau neu sefydliadau y buom yn ymgysylltu â hwy. Wrth adrodd yn ôl, fe rown grynodeb o'r arfarniad a wnaed o'n gwaith ymgysylltu a dangos sut ystyriwyd yr ymgysylltu wrth wneud ein penderfyniadau.

Byddwn yn gyson yn adolygu ein strategaeth cyfranogiad y cyhoedd a'n dulliau ymgysylltu er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas, yn bodloni anghenion ein cymunedau ac yn gyson â'n rhwymedigaethau statudol. Os canfyddir fod angen gwella rhywbeth, fe ddatblygwn gamau adferol i sicrhau'r gwelliant angenrheidiol a monitro eu gweithrediad.

# Sut i gysylltu â ni

Ewch i **Sgwrs y Sir** i fynegi eich barn a rhannu'ch syniadau am y Sir neu'ch ardal leol.

[www.conwy.gov.uk/Sgwrs-y-Sir](http://www.conwy.gov.uk/Sgwrs-y-Sir)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

[sgwrsysir@conwy.gov.uk](mailto:sgwrsysir@conwy.gov.uk)

01492 574000
Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen.

Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy'r Gwasanaeth InterpretersLive! a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i [www.conwy.gov.uk/arwyddio](http://www.conwy.gov.uk/arwyddio).



# Sut fyddwn yn cyflawni ein hamcanion?

Byddwn yn mesur ein cynnydd wrth gyflawni'r camau canlynol:

1. Atgyfnerthu Sgwrs y Sir
2. Darpari hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau ynglŷn â dulliau ymgysylltu effeithiol.
3. Datblygu'r modd y defnyddiwn gyfryngau cymdeithasol wrth hyrwyddo cyfarfodydd democrataidd.
4. Hybu ymwybyddiaeth Cynghorwyr ynglŷn â manteision y cyfryngau cymdeithasol a sut i'w ddefnyddio'n effeithiol.
5. Uno holl weithgareddau ymgynghori'r Cyngor mewn un canolbwynt hygyrch ar-lein.
6. Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a hyrwyddo eu cyfraniad i'n gwaith ymgynghori a'r modd y mae hynny'n cysylltu â phenderfyniadau democrataidd.
7. Cymryd camau i sicrhau fod ymgysylltu yn gynhwysol fel bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gael dweud eu dweud ac y gwrandawir arnynt yn unol â chynllun Conwy Gynhwysol.
8. Hybu gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a gwaith y Cyngor mewn materion sy'n effeithio ar breswylwyr.
9. Gwella'r modd rydym yn hyrwyddo ffyrdd i bobl gymryd rhan yn y prosesau hynny drwy ganfod ac amlygu sefyllfaoedd lle mae barn preswylwyr wedi effeithio ar ganlyniad ymgynghoriad / arolwg.
10. Hyrwyddo swyddogaeth ac amlygrwydd Cynghorwyr.
11. Annog democratiaeth leol fywiog a hybu mwy o amrywiaeth.

# Atodiad 1 – Mathau o Gymunedau

| Math | Diffiniad | Enghraifft |
|---|---|---|
| **Cymuned Weithredu** | Cymuned â'r nod o arfer grym ar y cyd i sicrhau newid | Cymunedau sy'n ceisio mynd yn ddi-blastig<br>Cymunedau sy'n cymryd drosodd ased cymunedol<br>Cymunedau sy'n gefeillio â threfi neu bentrefi tramor |
| **Cymuned Ymarfer** | Cymuned o bobl sy'n cymryd rhan yn yr un gweithgaredd | Clybiau Chwaraeon (pêl-droed a rygbi, er enghraifft)<br>*Parkrun*<br>Dosbarthiadau Ffitrwydd |
| **Cymuned Mewn Lle** | Cymuned o bobl wedi'u huno drwy ddaearyddiaeth | Cynghorau Tref a Chymuned<br>Diwrnodau Tacluso Cymunedol<br>Cyfeillion Parciau |
| **Cymunedau Diddordeb** | Cymuned i bobl sydd â diddordeb yn yr un peth | Men's Shed<br>Rhandiroedd<br>Corau<br>Clybiau drama<br>Clwb Blodau |
| **Cymuned ar sail Amgylchiadau** | Cymuned o bobl wedi'u huno gan sefyllfa gyffredin neu her nad ydynt wedi'i chreu eu hunain | Fforwm Nam ar y Synhwyrau<br>Cymuned LHDT<br>Grŵp Mynediad i Bobl Anabl |